# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Ionawr 2021

Amser: 09.00 - 12.34

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11108

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Lynne Neagle AS (Cadeirydd)<br>Hefin David AS<br>Suzy Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Vikki Howells AS (yn lle Dawn Bowden AS)<br>Laura Anne Jones AS |
| Tystion: | Kirsty Williams AS, Y Gweinidog Addysg<br>Steve Davies, Llywodraeth Cymru<br>Huw Morris, Llywodraeth Cymru<br>Vaughan Gething AS, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Eluned Morgan AS, Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg<br>Julie Morgan AS, Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Claire Bennett, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Albert Heaney, Llywodraeth Cymru<br>Dr Heather Payne, Prif Swyddog Feddygol, Llywodraeth Cymru<br>Tracey Breheny, Llywodraeth Cymru<br>Steve Elliot, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd)<br>Phil Boshier (Ymchwilydd)<br>Sian Hughes (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, ond bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai hi'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Suzy Davies AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dawn Bowden AS. Dirprwyodd Vikki Howells AS ar ei rhan.

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Addysg.

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

3.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog Addysg mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am y materion a ganlyn:

- sut mae'r £29 miliwn ar gyfer y rhaglen 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau' wedi'i wario hyd yma ac wedi'i ddyrannu ar gyfer 2021 - 2022;

- manylion y newidiadau demograffig a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf mewn perthynas â'r cynnydd o £21.7 miliwn mewn cyllid 6ed Dosbarth ac Addysg Bellach.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n mynd ar drywydd y ceisiadau hyn yn ei adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft.

## 4 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

4.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidogion mewn perthynas â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22.

4.2 Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu nodyn ar y dangosyddion a ddefnyddir ar gyfer y fformiwla newydd i ddyrannu cyllid i fyrddau iechyd a sut y mae'n ystyried anghenion a nodweddion penodol y boblogaeth mewn gwahanol rannau o Gymru.

4.3 Cytunodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu nodyn am yr £8 miliwn a gafodd awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a phlant o dan y gronfa caledi llywodraeth leol.

4.4 Cytunodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd i ddarparu adroddiad fframwaith canlyniadau traws-Lywodraethol i'r Pwyllgor sy'n ymwneud â'r grant Plant a Chymunedau, pan fydd ar gael.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n mynd ar drywydd y ceisiadau hyn yn ei adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 - trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiynau blaenorol.